MONMOUTHSHIRE MEADOWS GROUP / GRŴP GWEUNYDD SIR FYNWY

ADRODDIAD BIOAMRYWIAETH

Stephanie Tyler a Sheelagh Kerry

Cyflwyniad

Sefydlwyd y Grwp Gweunydd Sir Fynwy yn 2003 i annog perchnogion o gaeau bach i'w cadw er budd planhigion, pryfed a bywyd gwyllt. Caiff aelodau newydd y MMG ymweliadau a cheir cyngor perthnasol lle yr mae'n briodol. Rhai o'r broblemau mwyaf cyffredin a welwn yw'r rhai yn sgil llechfeddiant rhedyn a mieri yn ogystal a diffyg rheolaeth y safleoedd. Nid oes gan llawer o'r tirfeddianwyr peiriannau a stoc digonol ac felly mae'n bwysig i'r MMG adael i'w aelodau fod yn ymwybodol o unrhyw gontractwyr a pherchnogion stoc. Yn ogystal â hyn mae'r MMG yn symud merlod ei hun o amgylch safleoedd lle nad oes unrhyw stoc ar gael.

Yn 2011 cyflwynwyd grant gan Amgylchedd Cymru a alluogodd i'r gwirfoddolwyr ymweld â'r safleoedd yn fwy rheolaidd ac ail-arolygu llawer o'r safleoedd a gafodd eu ymweld rhwng 2003 a 2006. Roedd hyn er mwyn asesu effeithiolrwydd unrhyw reolaeth. Un anfantais o ymweld yn hwyr yn yr haf yw na fydd nifer o rywogaethau'r gwanwyn megis y *Luzula campestris*, *Carex caryophyllea* a *Primula veris,* ar gael ac felly bu'n rhaid i'r rywogaethau sy'n ymddangos rhwng mis Awst a mis Tachwedd cael eu hamcangyfrif yn lle. Yn gyffredinol, po fwyaf o ymweliadau mae pob safle yn ei dderbyn y mwyaf o rywogaethau fydd i'w weld. Mae'r safleoedd yn amrywio rhwng llai na 0.5 erw i dros 40 erw, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn safleoedd bach rhwng 1-5 erw.

Mae'r grant hefyd wedi annog y grŵp i fewnbynnu'r holl ddata a gasglwyd a'i ddadansoddi o fewn taenlen. Mae nifer o'r safleoedd a arolygwyd gan y MMG wedi cyrraedd y targedau digonol (lleiafrif o wyth dangosydd eang ar gyfer glaswelltir calchaidd a niwtral, saith dangosydd ar gyfer glaswelltir asid a deuddeg dangosydd ar gyfer glaswelltir corsiog - gweler canllawiau dethol LWS) ar gyfer safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol; mewn llawer o achosion mae'r safleoedd llai amrywiol wedi gwella wrth ychwanegu rheolaeth sensitif, ac mewn sawl achos arall wedi gyflwyno hadau gwair a nifer o dangosyddion rhywogaeth newydd.

Mae'r data a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn yn dangos pa mor eang y dosberthir gwahanol rywogaethau ar safleoedd MMG yn ogystal â gormodedd y rhywogaethau a dangosyddion ar gyfer glaswelltir corsiog, niwtral, asid a calchaidd. Mae gan nifer o'r safleoedd amrywiaeth o wahanol fathau o laswelltir, gyda nifer ohonynt yn gynnwys mwy nag un fath o glaswelltir corsiog.

Trosolwg Cyffredinol o ardal y Grwp Gweunydd Sir Fynwy

Y mae'r ardal sydd yn syrthio o dan adain y grwp o fewn Sir Fynwy yn bennaf. Yn ei hanfod mae hon yn ardal wledig tir isel (o dan 250m) o ran natur y prif trefi Mynwy, Y Fenni, Cas-Gwent ac Wysg. Mae Dyffryn Gwy yn ffurfio'r ffin ddwyreiniol, gyda'r Afon Mynwy yn y gogledd-ddwyrain a rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd. Bydd yr Afon Wysg yn llifo o'r gogledd i'r de trwy rhan orllewinol y sir. Mae gan bedwar aelod yr MMG diroedd ar draws y ffin i Swydd Henffordd ond maent wedi'u hepgor o'r dadansoddiadau yn yr adroddiad hwn.

Yr ydym wedi colli'r rhan fwyaf o'n glaswelltir lled-naturiol o fewn iseldiroedd Prydain o ganlyniad i welliannau amaethyddol. Yn amlwg mae glaswelltir lled-naturiol yn adnodd prin ac yn dirywio'n gyflym, yn ôl pob tebyg, o fewn Sir Fynwy mae llai na 2,000 ha (5,000 erw) (gweler Westwood *et al*, 1995). Dylai'r glaswelltir sydd wedi ei addasu lleiaf gael ei gadw a'i wella trwy reolaeth briodiol a chael ei ddynodi fel Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol oherwydd eu gwerth cadwrol uchel (gweler Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, 2004).

Disgrifiad o Laswelltir y MMG

Mae'n bosib disgrifio'r rhan fwyaf o safleoedd y MMG fel glaswelltir niwtral wedi'u gwella'n rhanedig (e.e. glaswelltir ar bridd niwtral, sydd ddim yn asidaidd neu'n galchaidd o ran eu natur gyda pH rhwng 5.5 i 7.0). Mae'r safleoedd sydd â'r amrywiaeth fwyaf o rywogaethau phlanhigion a'r lleiaf o welliant amaethyddol yn cyd-fynd â'r glaswelltir *Cynosurus cristatus – Centaurea nigra*, gymdeithas (MG5) o'r Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol (Rodwell 1992). Mae'r rhywogaethau nodweddiadol yn cynnwys nifer o laswelltoedd mân megis *Cynosurus cristatus*, *Agrostis capillaris*, *Festuca rubra* ac *Anthoxanthum odoratum*. Dim ond ychydig iawn o *Lolium perenne* sy'n bresennol. Gall berlysiau fod yn niferus iawn gan gynnwys, *Centaurea nigra*, *Lotus corniculatus*, *Trifolium pratense* a *Lathyrus pratensis*, a rywogaethau mwy prin megis *Leontodon hispidus*, *Primula veris*, *Silaum silaus*, *Orchis morio*, *Platanthera chlorantha* ac *Ophioglossum vulgatum*. Ar ddolydd gwair bydd *Rhinanthus minor* a *Leucanthemum vulgare* hefyd yn niferus. Dyma'r math o laswelltir y dylai berchonogion dolydd anelu amdano, a dylai'r rheolaeth gael ei gynllunio er mwyn helpu cyflawni hyn.

Bydd y glaswelltir yn llai amrywiol eu natur yn sgil gwelliannau amaethyddol, megis gwrtaith, gor-bori ac ail-hadu (hyd yn oed os oedd y datblygaidau diweddaraf wedi'u cyflwyno degawdau yn ôl). Yn y glastir mae glaswelltir yn fwy domiwnyddol (gan gynnwys *Lolium perenne*) ond bydd perlysiau yn bresennol, yn arbennig y rywogaethau *Hypochoeris radicata*, *Rumex acetosa*, *Ranunculus, Plantago lanceolata* a *Trifolium repens* ynghyd â *Centaurea nigra*, sef y gymdeithas *Lolium perenne - Cynosurus cristatus,* MG6.

Trwy esgeulustod mae'r glaswelltir yn tyfu'n rheng gyda *Arrhenatherum elatius*, *Dactylis glomerata* a *Holcus lanatus bydd hyn* fel arfer yn cael ei ddomiwnyddu gan greu glaswellt twmpathog. Mae rhywogaethau *Heracleum sphondylium*, *Urtica dioica* a *Cirsium* yn aml yn amlwg yng nghymuned yr *Arrhenatherum elatius,* MG1.

Ar dir gwlyb neu llaith darganfyddwn y glaswelltir sydd wedi ei wella yn rhan o'r gymuned *Holcus lanatus – Juncus effuses*, MG10. Yma mae'r *Juncus effusus* a *Holcus lanatus* yn ymuno gyda'r *Agrostis stolonifera* yn ogystal a pherlysiau, fel er enghraifft *Lotus pedunculatus*.

Cawn laswelltir corsiog yn bresennol ar rai safleoedd y MMG. Mae'r rhywogaethau *Juncus* yn niferus gyda'r rhywogaethau *Agrostis*, *Anthoxanthum odoratum*, *Festuca rubra* a *Holcus lanatus*. Ond yn ddelfrydol fe fydd yna amrywiaeth o rywogaethau eraill megis *Epilobium palustre*, *Galium palustre*, *Lotus pedunculatus*, *Mentha aquatica*, *Ranunculus flammula* a *Filipendula ulmaria* (dyma gymuned y *Juncus – Galium palustre*, M23). Gall *Dactylorhiza praetermissa*, *Caltha palustris*, *Stachys palustris*, *Stellaria uliginosum* a *Lychnis flos-cuculi* hefyd fod yn bresennol. O fewn un neu ddau o safleoedd y MMG, ar gorsydd, darganfyddir y *Hydrocotyle vulgaris*, *Viola palustris*, *Anagallis tenella* a *Dactylorhiza maculatum ssp. Ericetorum*.

Ar briddau gyda chrynodiad asid ychydig yn uwch gellir darganfod *Danthonia decumbens*, *Carex caryophyllea*, *Potentilla erecta*, *Hypericum pulchrum*, *Veronica officinalis*, *Polygala serpyllifolia*, *Pedicularis sylvatica*, *Conopodium majus* a *Succisa pratenis*, ynghyd â rhywogaethau sydd â

nodweddion glaswelltir niwtral (sef yr is-gymuned *Danthonia decumbens,* MG5c) Ar briddau a chanddynt sylfaen bridd wael, ar gaeau sydd fel arfer yn cael eu rheoli fel tir pori, darganfyddir y gymuned sy'n perthyn i dir asidig, fel arfer (y gymuned *Festuca ovina – Agrostis capillaris – Galium saxatile*, U4). Mae hyn fel arfer yn laswellt byr gyda mwsog ymhlith y glaswelltoedd man a *Galium saxatile*, *Luzula campestris* a *Potentilla erecta*. Cawn ychydig o gaeau'r MMG yn gorwedd ar garreg-gymysg gwarts a fydd dal yn arddangos eu gwreiddiau gweundir, gyda *Calluna vulgaris, Erica cinerea* a *Deschampsia flexuosa* ar hyd eu hymylon.

Mae ychydig o'r glaswelltir niwtral ag elfen galchaidd iddo gyda rhywogaethau megis *Trisetum flavescens*, *Galium verum*, *Pimpinella saxifraga*, *Sanguisorba minor* ac *Agrimonia eupatoria*. Dyma is-gymuned y *Galium verum* o MG5 (MG5c). Un o'r mathau arall o laswelltir calchaidd, sy'n brin yn Ne-ddwyrain Sir Fynwy, yw'r gymuned *Bromopsis erecta* (CG3). Mae'r rhywogaethau nodweddiadol yn gynnwys *Blackstonia perfoliata*, *Centaurium erythraea*, *Crepis capillaris* a *Linum catharticum*. Yng ngogledd y sir, ar y creigiau sydd â sylfaen gyfoethog o Hen Dywodfaen Coch mae olion o laswelltir *Festuca ovina*, *Agrosits capillaris – Thymus polytrichus* (CG10) gydag amrywiaeth o rywogaethau niwtral, asidig a chalchaidd megis *Galium saxatile*, *Lotus corniculatus*, *Potentilla erecta*, *Carex caryophyllea*, *Carlina vulgaris*, *Pilosella officinarum* a *Leontodon autumnalis*.

Fflora ddolydd a phorfeydd MMG

Mae data ar gael ar gyfer 120 safle o fewn Sir Fynwy VC 35. Cafodd tri safle ei heithrio o'r dadansoddiad am eu bod dros y ffin yn Swydd Henffordd. Yn ogystal cafodd 3 safle o fewn Sir Fynwy, a gafodd eu harolygu yng ngaeaf 2011/12 eu heithrio. Cafodd mwy na 280 o rywogaethau gwahanol eu cofnodi o fewn y 120 safle er bod rhai ohonynt yn blanhigion cynefinol megis *Sonchus oleraceus* a rhai ohonynt yn wrychoedd neu rhywogaethau coetir megis *Geum urbanum, Geranium robertianum,Arum maculatum, Alliaria petiolata* a *Stachys sylvatica*. Mae dros 60 rhywogaeth o weiriau, hesg a brwyn, a thua 200 ohonynt yn rywogaethau glaswelltir a wlybtir, wedi'u cofnodi.

Mae'n rhaid cofio fod rhai o'r safleoedd wedi derbyn ond un ymweliad ac felly gan dibynnu ar os oedd yr ymweliad yn yr haf neu'r gwanwyn bydd unrhyw rywogaethau sy'n hwyrach neu'n gynharach wrth flodeuo wedi eu hanwybyddu. Mae'r ffugirau canlynol felly yn lleiafrif.

Rhywogaethau mwyaf cyffredin

Mae'r saith rhywogaeth glaswelltir mwyaf cyffredin a niferus, sydd i'w darganfod mewn dros 90% o'r safleoedd, yn cael eu dangos yn nhabl 2 yn nhrefn amlder digwyddiad fel y mae rhywogaethau cyffredin eraill (sydd i'w darganfod mewn dros 70% o'r safleoedd) mewn 50% i 70% o safleoedd ac mewn 40% i 50% o safleodd a rhywogaethau llai cyffredin mewn 25% i 40% o safleoedd.

Tabl 1. Achosion o rywogaethau planhigion cyffredin mewn safleoedd MMG. (Mae'r rhywogaethau mewn print trwm yn 'rhywogaethau dangosol' o laswelltir niwtral, calchaidd, asidig a corsiog - gweler Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, 2004).

Rhywogaethau mwyaf cyffredin o fewn >90% o safleoedd.	**Rhywogaethau cyffredin o fewn >70% o safleoedd.**	**Rhywogaethau o fewn 50-70% o safleoedd.**	**Rhywogaethau o fewn 25-40% o safleoedd.**
Holcus lanatus	*Festuca rubra*	*Poa trivialis*	*Senecio jacobaea*
Ranunculus repens	*Cerastium fontanum*	*Scilla non-scripta*	*Trifolium dubium*
Ranunculus acris	*Heracleum sphondylium*	***Luzula campestris***	***Viola riviniana***
Anthoxanthum odoratum	***Lotus corniculatus***	***Cardamine pratensis***	*Crepis capillaris*
Dactylis glomerata	***Trifolium pratense***	***Lathyrus pratensis***	***Dactylorhiza fuchsia***
Plantago lanceolata	*Achillea millefolium*		*Angelica sylvestris*
Rumex acetosa	*Agrostis capillaries*	**Species in 40% -50% sites**	***Potentilla erecta***
	Stellaria graminea	***Leucanthemum vulgare***	***Ranunculus bulbosus***
	Hypochaeris radicata	***Conopodium majus***	***Potentilla sterilis***
	Taraxacum officinale	***Ajuga reptans***	*Alopecurus pratensis*
	Veronica chamaedrys	***Primula veris***	*Phleum pratense*
	Centaurea nigra	***Lotus pedunculatus***	***Rhinanthus minor***
	Cynosurus cristatus		***Hypericum maculatum***

Rhywogaethau prin: Mae pob rhywogaeth allweddol arall yn bresennol yn llai na 25% o safleoedd.

Tabl 2. Rhywogaethau prin ar safleoedd MMG.

Rhywogaethau o fewn 10-30 safle	**O fewn 3-9 safle**	**O fewn 1-3 safle**
Leontodon hispidus 30		
Bromus hordeaceus or B.commutatus 29	***Galium saxatile 9***	***Dactylorhiza praetermissa 3***
Filipendula ulmaria 28	***Pedicularis sylvatica***	***Polygala serpyllifolia***
Vicia cracca 25	***Trifolium medium 8***	***Ononis repens***
Vicia sativa 25	***Orchis mascula***	***Viola palustris***
Galium palustre *23*	***Pilosella officinarum 7***	***Anacamptis pyramidalis***
Lysimachia nemorum 22	***Alchemilla filicaulis***	***Danthonia decumbens***
Hypericum perforatum 22	***Campanula rotundifolia***	***Platanthera chlorantha 2***
Vicia sepium 20	***Clinopodium vulgare***	***Lysimachia nummularia***
Rumex crispus 20	*Festuca pratensis*	***Hydrocotyle vulgaris*** *(2),*
Centaurium erythraea 19	*Vicia hirsuta*	***Silaum silaus***
Carex flacca 19	***Briza media***	***Sanguisorba minor***
Lychnis flos-cuculi 17	***Orchis (Anacamptis) morio***	*Tanacetum vulgare*
Carex caryophyllea 16	***Pulicaria dysenterica***	*Verbena officinalis*
Rumex acetosella 14	***Agrimonoia eupatoria***	***Stachys palustris***
Narcissus pseudonarcissus 14	***Luzula mulitflora 6***	***Calluna vulgaris***
Polygala vulgaris 13	***Succisa pratensis***	***Helicotrichon pubescens 1***
Malva moschata 11	***Leontodon saxatilis***	*Vicia tetrasperma*
Stellaria uliginosum 11	*Leontodon autumnalis*	*Trifolium campestre*
Medicago lupulina 11	***Listera ovata***	***Sanguisorba officinalis***
Stachys officinalis 11	***Valeriana officinalis***	*Montia fontanum*
Pimpinella saxifraga 11	***Dactylorhiza maculatum***	***Genista tinctoria***
Veronica officinalis 10	*Teucrium scorodonia*	***Anagallis tenella***
	Lathyrus linnifolius 5	*Odontites verna*
	Hypericum pulchrum	***Linum catharticum***
	Colchicum autumnale	***Sison amomum***
	Trisetum flavescens	***Galium verum***

Rhywogaethau o fewn 10-30 safle	O fewn 3-9 safle	O fewn 1-3 safle
	***Euphrasia** agg.*	***Ophrys apifera***
	Knautia arvensis 4	***Erica cinerea***
	Polygonum bistorta	

Ni chofnodir rhywogaethau hesg a glaswellt gystal â rhywogaethau eraill. Wnaeth rhai o'r arolygwyr ei gweld hi'n anodd i adnabod y planhigion hyn, ac o fewn ymweliadau yn hwyr yn yr haf/hydref mae'r rhywogaethau sy'n blodeuo ar amserau gwahanol wedi'u gadael allan ar adegau. Cafodd *Poa humilis, Carex pilulifera* a *Carex divulsa* eu darganfod ar dim ond un safle ond yn sicr mae'n tyfu ar safleoedd arall. Cafodd *Carex nigra* ei ddarganfod ar ddau safle, *Carex ovalis* ar pump safle a *Carex hirta* ar saith. Cafodd *Scirpus setaceus* a *Eleocharis palustris* eu darganfod ar ddau safle tir gwlyb.


O'r rhywogaethau llai dymunol (*Lolium perenne*, danadl, ysgall a dociau), darganfyddir *Lolium perenne* ar tua 52% o safleoedd (62), darganfyddir *Rumex obtusifolius* ar 75% o safleoedd (88), yn ogystal â *Cirsium arvense* o fewn 57% o safleoedd (69), a *Cirsium palustre* a *Cirsium vulgar ear* ar llai na 50% (54 a 50). Roedd dociau eraill fel *Rumex conglomeratus* a *Rumex crispus* yn brin iawn i gymharu â *Rumex obtusifolius,* a gafodd eu cofnodi ar ddau a 20 safle yn y drefn honno. Darganfyddwyd *Urtica dioica* ar o leiaf 73 safle (61%) a *Trifolium repens* ar 87 safle (73%) gan amlaf o ganlyniad i ddatblygiadau amaethyddol. Roedd rhedyn *Pteridium aquilinum* yn gyffredin iawn, yn enwedig o fewn gwrychoedd ac ar ymylon y caeau ac ychydig o safleoedd heb y rhedyn ymledol hyn.

Amrywiaeth rhywogaethau


Ar y rhan fwyaf o'r safleoedd roedd rhwng 31 a 60 rhywogaeth yno gyda rhai safleoedd arbennig efo 103 a 104 rhywogaeth (ffigwr 1). Heb os buasai ymweliadau pellach i'r rhan fwyaf o safleoedd yn cynyddu'r faint o rywogaethau gellir eu darganfod. Er y gallai safleoedd mawr cael eu hystyried er mwyn cynnal mwy o rywogaethau na safleoedd bach, mae llawer o'r safleoedd bach (<2 erw) yn cynnig yr un maint o rywogaethau a'r safleoedd o >10 erw.

Pan ystyrir y 'rhywogaethau dangosol' roedd y rhan fwyaf o safleoedd yn cynnwys mwy na 10 dangosydd (niwtral, asidig, calchaidd a corsiog wedi'u uno) efo saith safle gyda rheng 31 a 41 rhywogaeth (ffigwr 2). Dim ond 11 safle oedd â llai na phump rhywogaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r safleoedd hyn yn gaeau a gafodd eu datblygu'n amaethyddol. Roedd y safleoedd gyda'r nifer fwyaf o dangosyddion yn cynnwys ardaloedd o wlyptir - pantiau, ardaloedd corsiog, nentydd ochr neu lynoedd - a wnaeth gynyddu'r amrywiaeth.

Ffigwr 1. Amrywiaeth rhywogaethau o fewn safleoedd MMG



Ffigwr 2. Amlder 'rywogaethau dangosol' o fewn safleoedd MMG




Er mwyn ymgymhwyso fel Safle Bywyd Gwyllt Lleol (LWS) mae'n rhaid i'r dolydd gynnwys wyth neu fwy o ddangosyddion glaswelltir niwtral neu galchaidd, saith neu fwy dangosydd o laswelltir asidig neu 12 neu'n fwy o ddangosyddion glaswlltir corsiog. Mae'n rhaid i'r dangosyddion fod yn niferus ac wedi'u gawasgaru ar draws y safle. Mae 72 allan o'r 120 safle wedi'u dynodi ar gyfer statws LWS. O'r dandansoddiad hyn mae sawl safle arall wedi dangos yr amodau cywir ar gyfer cael ei gategoreiddio fel LWS.

Wrth ystyried y dangosyddion glaswelltir niwtral gydag elfennau asidig a calchaidd, roedd gan y rhan fwyaf o safleoedd rhwng chwech ac 15 dangosydd; roedd gan ddau safle arbennig 36 a 38 dangosydd. Un anomaledd oedd y *Potentilla sterilis*. Mae'r planhigyn yn cael ei ystyried yn

ddangosydd o laswelltir calchaidd, o ddilyn y Canllawiau. Er hyn, yn yr arolwg yma, roedd yn aml yn cael ei ddarganfod ar safleoedd glaswelltir niwtral, MG5.


Ffigwr 3. Amlder o dangosyddion y glaswelltir asidig, niwtral a calchaidd o fewn safleoedd MMG



Roedd y dangosyddion glaswelltir corsiog wedi'u gwasgaru o fewn safleoedd MMG mewn rhai porfeydd wedi'u draenio'n dda. Roedd gan lawer o safloedd dangosyddion gyda nentydd neu rhythr -ddwr yn ei cynorthwyo megis, *Stellaria uliginosum, Galium palustre, Lycopus europaeus, Stachys palustris, Valeriana officinalis* a *Filipendula ulmaria*. Er nad oedd gan 39 safle y dangosydd hyn, roedd gan 52 safle rhwng un i bump dangosydd gwlybtir (ffigwr 4). Y dangosyddion mwyaf aml o'r rhain oedd *sylvestris* (39 safle), *Lotus pedunculatus* (46) a *Lysimachia nemorum* (22).

Roedd gan naw safle MMG dros 12 dangosydd o rywogaethau glaswelltir corsiog ac felly roeddynt yn cael eu hystyried fel safloedd bywyd gwyllt, er gwaethaf unrhyw ddangosydd. Er hyn, dim ond 3 ohonynt oedd yn cael eu gategoreiddio fel LWS am fod ganddynt lynoedd bychain. Roedd dau o'r chwech safle arall yn gorsydd asidig gyda *Hydrocotyle vulgaris, Viola palustris, Anagallis tenella* a *Dactylorhiza maculatum ssp. Ericetorum* ynddynt.

Ffigwr 4. Amlder dangosyddion glaswelltir corsiog ar safleoedd MMG



Effeithiau o gyngor rheolwyr

Cafodd dros 60 safle eu hail-ymweld er mwyn sicrhau safon eu rheolaeth. Mae'r rhan fwyaf o safleoedd wedi'u rheoli'n dda ac mewn cyflwr boddhaol neu wedi'u gwella. Mae fflora'r glaswelltir yn parhau i amrywio neu wedi gwella gyda, er enghraifft, glympiau o *Dactylis glomerata*, ac mewn saith achos, cafwyd llawer llai o fiaren. Ar hyn o bryd, dim ond tri safle sydd â rheolaeth sy'n is nag y disgwylir iddo fod. Ar un safle mae'r glaswellt ar y ddol yn cael ei dorri'n rhy aml, ac mae ardal wlyb wedi'i gorchuddio gyda cherrig yn lle ei gwella a'i defnyddio. Cafodd ail safle ei amgylchynnu gyda ffens er mwyn cael ei bori, er nad yw wedi'i pori'n digonol ac felly mae'r miaren a rhedyn wedi mynd yn bla (roedd *Arrhenatherum elatius* domiwnyddu mewn rhannau). Ar safle arall mae gor-bori gan ddefaid yn atal llawer o blanhigion rhag flodeuo. Mae'r MMG wedi bod yn brysur yn ceisio perswadio'r perchnogion i bori neu dorri gwair; mewn rhai achosion mae'r grŵp wedi torri glaswellt yng nghaeau'r aelodau ac yn aml yn torri rhedyn yn ogystal. Mae'r ddau MMG 'Exmoor Ponies' wedi pori ar 13 safle.

Un achos sy'n poeni'r grwp yw fod nifer o aelodau yn prynu hadau gan ffynonellau allanol er mwyn gwella'r amrywiaeth yn eu caeau neu gerddi. Mae'r hadau hyn yn gallu cynnwys ambell rywogaeth na cheir ar laswelltir MG5 megis *Plantago media* a *Daucus carota*, ac mae gan rhai o'r hadau wrieddiau ewropeaidd. Bydd y MMG yn annog aelodau i brynu hadau gan y 'Gwent Wildlife Trust' a MMG, gyda'u peiriant cynaeafu hadau sy'n eiddo i'r ddau. Neu gallant brynu oddi ar ffynonellau sydd ag enw da megis y 'Plant Wild' yn Llanllieni, sy'n casgly hadau o ardaloedd lleol, a rhai ohonynt o ddolydd MMG.

Cagliad

Mae llawer o aeoldau'r MMG yn berchen ar ardaloedd pwysig sy'n gyfoeth o rywogaethau glaswelltir arbennig ac yn cyfrannu i'r 'Habitat Action Plan' (HAP) a gyflwynwyd gan Cyngor Sir Fynwy. Mae aelodau eraill yn creu neu'n adfer ardaloedd o'r glaswelltir hyn, sydd hefyd yn cyfrannu tuag at HAP. Mae'r MMG wedi darganfod rhywogaethau sy'n cael eu bygwth megis, *Orchis morio* and *Platanthera chlorantha*, ar safleoedd lle nad oeddynt wedi'u recordio o'r blaen. Mae'r data yn

cael ei rhannu efo'r 'South East Wales Biological Records Centre' yng Nghaerdydd a'r 'Botanical Society for the British Isles' trwy MapMate.

Yn y dyfodol bydd y MMG yn parhau i ymweld â chaeau, gerddi a perllannau'r aelodau ac yn cynnig cymorth os bydd angen. Bydd y 'Gwent Wildlife Trust' yn derbyn gwybodaeth bennodol ar gyfer y safleodd sy'n cyrraedd y nodau cywir i'r Safleoedd Bywyd Gwyllt LLeol. Bydd y mwyafrif o safleoedd posibl yn cael eu hail-arolygu ar amser gwahanol o'r flwyddyn i bryd cawsant eu harolygu gyntaf, er mwyn gallu darganfod rhywogaethau gwahanol a gafodd eu colli yn yr arolwg gyntaf. Bydd ail-ymweliad yn cael ei cynnig ar gyfer sampl o safleoedd ar ôl 4 neu 5 blwyddyn er mwyn asesu'r rheolaeth. Bydd map o leoliadau safleoedd yr MMG yn cael ei greu; buasai hyn yn galluogi i'r grŵp dargedu ardaloedd gydag ychydig iawn o aeloedau ac annog perchnogion tir i ymuno neu eu gwneud yn ymwybodol o'r grŵp.

Cydnabyddiaethau

Diolch i aelodau MMG am ganiatáu mynediad i'r caeau a gerddi ac rydym hefyd yn diolchgar i'r aelodau a wnaeth ddarparu wybodaeth am y blanhigion ar tir eu hunain. Mae Trevor Evans, Caroline Howard, Dave Green, Maggie Biss a Glynis Laws wedi helpu gyda'r arolwg, a wnaeth 'Gwent Wildlife Trust' cynnig wybodaeth ychwanegol ar gyfer rhai safleoedd. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i Kate Marsh am cyfieithu'r adroddiad hwn i fewn i'r Gymraeg.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Amgylchedd Cymru wrth rhoi cymorth ariannol i'r MMG, am gostau teithio, rhai o'r arolygon ac i gynhyrchu'r adroddiad hwn.

Geirda;

Westwood,S., Kerry,S., Lindley,C. & Hurford, C. (1995) A Habitat Survey of the County of Gwent. Countryside Council for Wales, Bangor.

Rodwell, J.S. (ed.) (1992). British Plant Communities, volume 3: Grasslands and montane habitats. Cambridge University Press, Cambridge.

Gwent Wildlife Trust (2004). Guidelines for the Selection of Wildlife Sites in South Wales. The South Wales Wildlife Trust Sites Partnership.

Evans,T.G. (2007). The Flora of Monmouthshire. The Chepstow Society,Chepstow.